

Cofnodion o Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun
13 Mai 2019 yn Neuadd Llangeitho am 8 o'r gloch
Minutes of the Annual General Meeting of the Llangeitho Community Council Meeting held on Monday,
13 May 2019, in Llangeitho Village Hall, at 8pm

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod cyffredinol blynyddol a dymunwyd gwellhad buan i Cyng Paul Rooke a oedd yn yr Ysbyty ar hyn o bryd.

The Chair welcomed everyone to the annual general meeting, and wished Cllr Paul Rooke a speedy recovery from his stay in hospital.

Presennol/Present

Cyng Rhian Turner (Gadair/Chair), Gwilym Evans, Emyr Jones, Gwenfair Owen, Dafydd Morse, Daniel Thomas, Eirian Jones a Cyng John Evans.

Ymddiheuriadau/Apologies – Cyng Gerwyn Ebenezer, Myrddin James a Cyng Rhodri Evans.

Cyfrifon Blynyddol/Annual Accounts

Cylchredwyd copi o'r cyfrifon blynyddol a'i trafodwyd, cytunwyd bod y cyfrifon yn rhai cywir ar gynnig Cyng John Evans ac eiliwyd gan Cyng Gwilym Evans.

Copies of the annual accounts were distributed for discussion; it was agreed that the accounts were correct on the proposition of Cllr John Evans and this was seconded by Cllr Gwilym Evans.

Ethol Cadeirydd/Election of Chairperson

Enwebwyd Cyng Gwenfair Owen fel Cadeirydd ar gynnig Cyng John Evans ac eiliwyd gan Cyng Dafydd Morse.

Cllr Gwenfair Owen was nominated as the new Chairperson on the proposition of Cllr John Evans and this was seconded by Cllr Dafydd Morse.

Ethol Is-Gadeirydd/Election of Vice-Chairperson

Enwebwyd Cyng Daniel Thomas fel Is-gadeirydd ar gynnig Cyng Dafydd Morse ac eiliwyd gan Cyng Eirian Jones.

Cllr Daniel Thomas was nominated as the new Vice-Chairperson on the proposition of Cllr Dafydd Morse and this was seconded by Cllr Eirian Jones.

Ethol Archwiliwr Mewnol/Election of Internal Auditor

Enwebwyd Mr Gareth Jones, Tregaron yn Archwiliwr Mewnol ar gynnig Cyng Rhian Turner ac eiliwyd gan Cyng Eirian Jones.

Mr Gareth Jones, Tregaron, was nominated as the Internal Auditor on the proposition of Cllr Rhian Turner and this was seconded by Cllr Eirian Jones.

Cyflog a chostau'r Clerc/Clerk's wages & costs

Cytunwyd, yn ôl yr arfer i godi cyflog y clerc 5% i £1,276.25 ar gynnig Cyng Eirian Jones ac eiliwyd gan Cyng Daniel Thomas.

It was agreed, as per usual, to raise the salary of the clerk by 5% to £1,276.25 on the proposition of Cllr Eirian Jones and this was seconded by Cllr Daniel Thomas.

Cyflwynwyd costau'r clerc am 2018-19 i fod yn £105.17 a chytunwyd i'w talu ar gynnig Cyng Rhian Turner ac eiliwyd gan Cyng Dafydd Morse.

The expenses of the clerk in 2018-19 amounted to £105.17 and it was agreed payment should be made on the proposition of Cllr Rhian Turner and this was seconded by Cllr Dafydd Morse.

Datgan Diddordeb/Declaration of Interest – Neb/ No-one

Adroddiad yr Heddlu/Police Report - Yn absenoldeb yr heddlu ni dderbyniwyd adroddiad / *In the absence of a police officer, no report was received.*

Yn dilyn y digwyddiad diweddar ym Mhontbregarreg, gofynnir i'r Clerc gysylltu â Cyng Rhodri Evans i ymchwilio i mewn am faint o hyd mae'r gwaharddiad wedi'u rhoi ar yr ardal y tro ma. Cyng Emyr Jones i drafod y mater efo Mr Brian Thomas.

Following a recent incident at Pontbregarreg, the Clerk was asked to contact Cllr Rhodri Evans so that he could find out more information about how long the ban in the area was likely to last this time. Cllr Emyr Jones to discuss the matter with Mr Brian Thomas.

Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of previous meeting

Cynnig / Proposed: Cyng Daniel Thomas

Eiliwyd / Seconded: Cyng Gwilym Evans

Materion yn codi o'r cofnodion/Matters arising from minutes

- Dim newyddion wedi'u dderbyn am gais grant y milwr hyd yma. Mr Dilwyn Daniels yn cadarnhau fod trwyn y milwr efo Mr Ceitho Jenkins yn saff.
- *No news has been received about the application to fund the restoration of the soldier monument. Mr Dilwyn Daniels has confirmed that the nose of the soldier monument is in the safe possession of Mr Ceitho Jenkins.*
- Trafodwyd y posibilrwydd o godi postyn i roi fflag Cymru yn y parc, Cyng Gwenfair Owen i drafod ymhellach efo cyd-weithwyr y Cyngor Sir.
- *The possibility of erecting a flagpole to fly the Welsh flag in Llangeitho's park was discussed; Cllr Gwenfair Owen to discuss further with her co-workers at the County Council.*
- Gwaith wedi'u ddechrau, ond heb ei gwplu, ar y transh sydd wedi blocio/llewi ar y ffordd gefn rhwng Parcrhydderch a Chapel Betws, Cyng Emyr Jones i drafod ymhellach efo Mr Brian Thomas.
- *Work has started, but has not been completed, on the blocked trench on the back road between Parcrhydderch and Capel Betws; Cllr Emyr Jones to discuss this further with Mr Brian Thomas.*
- Dim wedi'u wneud am y twll/drain sydd wedi cwmpo mewn yn y ffordd uwchben mynedfa i Cilcert, Penuwch, Cyng Emyr Jones i drafod y gwaith yma efo Mr Brian Thomas.
- *No work has been done on the collapsed drain/hole in the road above the entrance to Cilcert, Penuwch. Cllr Emyr Jones to discuss this further with Mr Brian Thomas.*
- Derbyniwyd cadarnhad oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion mae ym mis Hydref maent yn llenwi ac adnewyddu biniau grit/halen.
- *Confirmation was received from Ceredigion County Council that they would be replacing/filling salt/grit bins in October.*

Cyfrifon/Accounts

- Cyflog y Clerc/Clerk's salary (mis Ebrill/April £101.29)
- Zurich Municipal (aswiriant blyneddol/annual insurance) £661.01
- Praesept/Precept (1) £1,833.34

Cynnig/Proposed: Cyng Dafydd Morse

Eilio/Seconded: Cyng Rhian Turner

Cyngor Sir Ceredigion County Council

- Cais wedi'u dderbyn i ddargyfeirio llwybr troed 35/10 & 35/11 Ffoslas, Penuwch – dim gwrthwynebiad.
- *Application received to divert a footpath 35/10 & 35/11 Ffoslas, Penuwch – no objection.*
- Derbyniwyd adroddiad cwmpasu 'Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol' Cynllun Datblygu Lleol Newydd Ceredigion 2018-2033 – dim gwrthwynebiad.
- *A report with regards to the judgement of the sustainability and an assessment of the environmental strategy of the new Local Development Plan in Ceredigion 2018–2033 was received – no objection.*

Un Llais Cymru/One Voice Wales

- Cylchredwyd ffurflenni 'lwfans cynghorydd' a chwblhawyd gan y Cynghorwyr na fu am hawlio lwfans blyneddol o hyd at £150 i dalu costau a ysgwyddwyd megis rhai'n ymwneud ag argraffu dogfennau, galwadau ffôn a nwyddau traul gyffredinol. Bydd y lwfans yn cael ei dalu i'r cynghorwyr yn awtomatig heblaw iddynt lenwi'r ffurflenni perthnasol. Bydd y lwfans yn drethadwy a chaiff ei dalu trwy system PAYE. Gofynnir i'r clerch gysylltu â swyddfa'r Un Llais Cymru am fwy o fanylion.
- *Forms with regard to 'councillor allowances' were distributed and filled in by the councillors who did not wish to claim an annual allowance of up to £150 for costs, such as printing documents, making phone calls and general expenses. This allowance would have been paid automatically to each councillor had they not filled in the form saying that they did not wish to claim the allowance. The allowance would be taxable and would have been paid through the PAYE system. The Clerk was requested to contact the office of One Voice Wales for more information.*
- Enwebwyd Cyng Gwenfair Owen a Cyng Daniel Thomas fel cynrychiolwyr y Cyngor Cymuned ar bwyllgorau Ardal Un Llais Cymru.
- *Cllrs Gwenfair Owen and Daniel Thomas were nominated as the representatives of the Community Council on the local committees of One Voice Wales.*

- Gofynnir i'r Clerc ysgrifennu at ULLC i ddatgan ein consern am y ffordd mae'r costau etholiad yn cael ei gweithio allan. Ar y ffordd bresennol maent yn cael ei rhannu fesul rhanbarth pleidleisio ond mae'r cynghorwyr yn meddwl petai'n well fesul nifer o etholwyr.
- *The Clerk was requested to write to ULLC to note the Council's concern about the way election costs are calculated. As it stands, the costs are divided as per election district, but the councillors are of the opinion it would be better if costs were calculated using the number of electors in a locality.*

Gohebiaeth/Correspondence

Dim i'w gofnodi / *Nothing to note.*

Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

- Derbyniwyd cwynion fod cyflwr y ffordd o Pontbregarreg i Llainwen ac i fyny i Penllwynbedw yn wael iawn, ynghyd a'r ffordd fawr o Tyncelyn draw am Stags Head.
- *Complaints have been received about the state of the road from Pontbregarreg to Llainwen and up towards Penllwynbedw, and also the main road from Tyncelyn towards Stags Head.*

Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/Date & location of next meeting

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar 3 Mehefin 2019 am 8yh yn Festri Capel Llwynpiod.

The next meeting will be held at Llwynpiod Chapel Vestry, on Monday, 3 June 2019, at 8pm.